**Cofnodion o Gyfarfod y Bwrdd**
**a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2020,**
**(yn electroning drwy Microsoft Teams a'i ffrydio'n fyw dros y we)**

| | | |
| --- | --- | --- |
| **Yn bresennol:** | | |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Jyoti Atri | (JA) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd a Llesiant |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RB-W) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) |
| Kate Eden | (KE) | Cyfarwyddwr Anweithredol, Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Dyfed Edwards | (DE) | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Judi Rhys | (JR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Quentin Sandifer | (QS) | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus / Cyfarwyddwr Meddygol |
| **Hefyd yn bresennol:** | | |
| Mark Bellis | (MB) | Cyfarwyddwr Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHO CC) |

| | | |
|---|---|---|
| Sian Bolton | (SB) | Cyfarwyddwr Pontio Dros Dro, y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Andrew Jones | (AJ) | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Dros Dro Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Jamie Topp | (JT) | Golygydd Digidol |
| Stephanie Wilkins (o 10.45am) | (SW) | Cynrychiolydd y Fforwm Partneriaeth Staff |
| **Yn arsylwi:** | | |
| Sarah Evans | (SE) | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| Richard Hayward | (RH) | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| Verity Winn (eitem 167/2020) | (VW) | Archwilio Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| John Boulton | (JB) | Pennaeth Gwella Ansawdd y GIG a Gwelliant Cymru |
| Paul Dalton | (PD) | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| Eleri Davies | (ED) | Pennaeth Heintiau Cysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI) a Rhaglen Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR) |
| Alison Ward | (AW) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |

*Dechreuodd y cyfarfod am 10:30*

**PHW 164/2020 Croeso**

Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan nodi'r angen i barhau â chyfarfodydd rhithwir yn seiliedig ar agenda'n gysylltiedig â COVID-19. Roedd y cyfarfod ar agor i'r cyhoedd ac i staff drwy gyfleuster ffrydio byw ar y wefan. Aeth JW ati i grynhoi rôl y Bwrdd fel Corff Llywodraethu'r sefydliad, â chyfrifoldebau penodol dros: ddatblygu a chyfeirio strategaeth; partneriaethau strategol; pennu parodrwydd i dderbyn risg a goruchwylio risgiau strategol; craffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau a phennu naws a diwylliant y sefydliad.

Nododd JW fod y Bwrdd yn cyfarfod yn ystod cyfnod difrifol iawn, gyda nifer yr achosion o COVID-19 yn cynyddu ynghyd â chynnydd yn y niferoedd sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ac, yn anffodus, yn nifer y marwolaethau. Roedd y Bwrdd yn wynebu ail drobwynt, yn dilyn y cyntaf ym mis Chwefror 2020, pan

ymatebodd y sefydliad cyfan i'r pandemig. Roedd yr agenda yn canolbwyntio ar yr angen i adolygu'r Cynllun Gweithredu canol blwyddyn, o ystyried dwyster cynyddol y baich gwaith sy'n gysylltiedig â COVID-19 a'i effaith ar y sefydliad.

**PHW 164/2020 Ymddiheuriadau**

**Nododd** y Bwrdd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

**PHW 165/2020 Datgan Buddiannau**

Ni wnaed ddatganwyd unrhyw fuddiannau gan aelodau'r Bwrdd yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes ar y gofrestr datganiadau o fuddiannau.

**PHW 166/2020 Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a materion yn codi o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 24 Medi 2020**

**Cymeradwywyd** y cofnodion gan y Bwrdd fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2020.

**Ystyriodd** y Bwrdd y Cofnod o'r Camau Gweithredu. Nododd HB bod dau gam gweithredu newydd wedi'u cynnwys, i'w diweddaru ymhellach yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd, sef:

- ***Cam Gweithredu 24/03/2020 PHW146/2020 (Adroddiad y Prif Weithredwr)***
- ***Cam Gweithredu 24/09/2020 PHW 148/2020 (Risg Strategol)***

**Cymeradwyodd** y Bwrdd y penderfyniad i gau'r camau gweithredu a oedd yn weddill y nodwyd eu bod wedi'u cwblhau.

**Materion yn codi**

***Cyfeirnod 153/2020 (Datganiad Ansawdd Blynyddol)***

Dywedodd RB-W bod camgymeriad wedi'i ganfod yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol mewn perthynas ag adrodd ar Wersi a Ddysgwyd. Roedd 74% o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau, gyda'r 24% a oedd yn weddill i gyd yn ymwneud â Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru. Byddai tîm Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru yn cynnwys cwblhau'r rhain yn ei raglen o welliant parhaus.

***Cyfeirnod 151/2020 (Diweddariad ar Effaith Gadael yr UE)***

Rhoddodd QS y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd ar baratoadau ar gyfer ymadawiad y DU o'r UE ar 31 Rhagfyr 2020. Roedd gwaith yn parhau â 3 gwlad arall y DU a'u Hadrannau Iechyd ar Fframwaith anneddfwriaethol; byddai'r Bwrdd yn cael diweddariad ar hyn yn ei gyfarfod mis Tachwedd 2020.
**Camau gweithredu**: QS

**PHW 167/2020 Trefniadau Llywodraethu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau**

Aeth JW ati i grynhoi'r newidiadau ar lefel Bwrdd a Phwyllgorau a gyflwynwyd yn gynharach yn y flwyddyn, i sicrhau trefniadau llywodraethu da yn ystod y pandemig. Nawr oedd yr amser i ystyried newidiadau pellach, i adlewyrchu cyfraniad y Bwrdd wrth i'r baich gwaith cysylltiedig â COVID-19 ddwysáu a'r effaith ddilynol ar draws y sefydliad.

Esboniodd HB y rhesymeg sy'n sail i'r cynigion, yn seiliedig ar gysyniad Llywodraethu Cywair Cywir (Right Touch), a gynlluniwyd i gefnogi trefniadau llywodraethu da parhaus heb fod yn rhy fiwrocrataidd.

Aeth JW ati i groesawu VW i'r cyfarfod a gofynnodd am ei barn ar y cynigion, yng nghyd-destun proses Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru. Amlinellodd VW y broses honno a chyfeiriodd at adroddiad cadarnhaol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2019; ni wnaed unrhyw argymhellion yn yr adroddiad ac roedd hynny'n parhau i fod yn wir am adroddiad 2020, camp ryfeddol, o ystyried yr amgylchedd gweithredu.

Fe wnaeth VW longyfarch y Bwrdd ar ei ffocws llywodraethu cryf a gwnaeth sylwadau ffafriol am y newidiadau arfaethedig; roedd y rhain yn cydfynd ag ymrwymiad Iechyd Cyhoeddus Cymru i welliant parhaus a chanmolodd y Bwrdd am ei ddull gweithredu.

Gwnaeth DE sylw ar y trafodaethau yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ar 13 Awst 2020. Nododd yn benodol y berthynas waith adeiladol ag Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol, y diwylliant dysgu a oedd yn amlwg iawn a gwaith y cadeirydd, yr is-gadeirydd, y prif weithredwr a'r dirprwy brif weithredwr i ymgorffori trefniadau llywodraethu da ar draws y sefydliad, gyda chefnogaeth gan Ysgrifennydd y Bwrdd. Roedd Adroddiad Asesiad Strwythuredig 2020 yn adlewyrchu'r flaenoriaeth uchel a roddir i drefniadau llywodraethu da.

**Penderfynodd** y Bwrdd:

- **Dderbyn** Asesiad Strwythuredig 2020 ac Adolygiad Cynghori Archwilio Mewnol o Drefniadau Llywodraethu yn ystod COVID-19 a chymryd sicrwydd o'r casgliadau ar ansawdd trefniadau llywodraethu ICC;
- **Mabwysiadu** dull 'Llywodraethu Cywair Cywir' fel y nodir yn yr adroddiad;
- **Cymeradwyo'r** amrywiadau i amserlen y Bwrdd a'r Pwyllgor fel yr amlinellwyd;
- **Cymeradwyo'r** Cylch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp Cynghori Pobl.

**PHW 168/2020 Adroddiad y Prif Weithredwr**

Wrth dywys y Bwrdd drwy'r adroddiad, tynnodd TC sylw at y pwyntiau canlynol:

- Adleoli staff ar draws y sefydliad i gefnogi'r ymateb o ran Profi, Olrhain a Diogelu; estynnodd ddiolch iddyn nhw oll, gan nodi pwysigrwydd cefnogi staff wrth i'r pandemig ddwysáu unwaith eto. Nododd y trefniadau a oedd ar waith i wneud hyn;
- Ei bod wedi bod yn bresennol, ynghyd â QS a Giri Shankar, yn sesiwn Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ym mis Medi. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddi adroddiad Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2020; roedd argymhellion 19 a 22 yn yr adroddiad hwnnw yn ymwneud ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nododd TC hefyd ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion yr Ymchwiliad, sydd ar gael ar wefan y Senedd;
- Y cynnydd sylweddol a wnaed i gyflwyno gweithio 24/7 mewn labordai rhanbarthol a datblygu labordai allweddol lleol. Byddai'r labordai rhanbarthol yn Abertawe, y Rhyl a Chaerdydd yn dechrau gweithio 24/7 erbyn diwedd mis Hydref, gyda'r labordai llai yn weithredol erbyn diwedd mis Tachwedd;
- Cyfarfod â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 21 Hydref 2020.

Gorffennodd TC drwy longyfarch y cydweithwyr hynny a gafodd eu hanrhydeddu yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines. Roeddent yn llawn haeddu'r anrhydeddau a nododd TC fod pob un ohonynt wedi cydnabod rôl eu cydweithwyr wrth gyflawni eu gwasanaethau. Ymunodd JW â TC i'w llongyfarch ar ran y Bwrdd.

Ychwanegodd JR ei llongyfarchiadau, a thynnodd sylw hefyd at Wobr diweddar y BMJ i'r tîm feirysau a gludir yn y gwaed am ei rôl yn dileu Hepatitis C o Garchar Ei Mawrhydi Abertawe. Roedd hyn yn gamp sylweddol.

Myfyriodd DE ar ymgysylltiad Iechyd Cyhoeddus Cymru â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

**Penderfynodd** y Bwrdd **dderbyn** y wybodaeth yn yr adroddiad.

**PHW 169/2020 Diweddariad ar COVID-19**

Rhoddodd QS ddiweddariad i'r Bwrdd ar y sefyllfa fyd-eang, sefyllfa'r DU a'r sefyllfa yng Nghymru, gan nodi'r cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion ac, yn anffodus, yn nifer y marwolaethau, wrth i'r ail don ddwysáu. Nododd y sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran y gyfradd profion positif, sef 15%, cyfradd yr achosion cyffredinol yng Nghymru sef 223:100,000 o'r boblogaeth a'r cynnydd bach yn yr amser dyblu i 19 diwrnod.

Yna gwnaeth QS sylw ynglŷn â rôl tîm Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran darparu cyngor polisi i swyddogion a Gweinidogion Cymru, ar y cyd ag eraill.

Gorffennodd QS drwy dynnu sylw'r Bwrdd at effaith pwysau'n gysylltiedig â COVID-19 ar staff a'r ffocws ar gryfhau cydnerthedd.

Diolchodd JW i QS am y newyddion diweddaraf, gan nodi ei fod yn gosod y cyd-destun ar gyfer yr eitem nesaf ar yr agenda. O ystyried yr angen i gefnogi staff a meithrin cydnerthedd yn y cyfnod dwys hwn, roedd cydnerthedd yn un o feysydd ffocws y Grŵp Cynghori Pobl, a gymeradwywyd yn gynharach yn y cyfarfod.

**Nododd** y Bwrdd y diweddariad a'r bwriad i ddarparu diweddariad pellach yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2020; cymerodd y Bwrdd **sicrwydd** hefyd o'r wybodaeth a ddarparwyd.

**Camau Gweithredu: QS**

**PHW 170/2020 Cynllun Gweithredol 2020-2022**

Pwysleisiodd JW bwysigrwydd yr eitem hon ar yr agenda, gan ei bod yn adlewyrchu effaith ail don y pandemig ar y sefydliad, yn yr un modd â chyrff cyhoeddus eraill ar draws yr holl system. Roedd yn bryd adolygu'r cynlluniau presennol, ac roedd hi a TC wedi tynnu sylw'r Gweinidog at yr adolygiad arfaethedig yn ystod eu cyfarfod diweddar.

Mynegodd JW hefyd werthfawrogiad y Bwrdd o'r gwaith sylweddol oedd yn gysylltiedig ag asesu'r adolygiad canol blwyddyn ac am ansawdd y ddogfennaeth a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

Pwysleisiodd TC yr angen am hyblygrwydd yn y cyfnod ansicr hwn, i gynnal yr ymateb er mwyn diogelu'r cyhoedd tra'n parhau i gyflawni cyfrifoldebau iechyd cyhoeddus ehangach. Roedd rhaid i'r Tîm Gweithredol symud adnoddau'n gyflym ar draws y sefydliad, i ddiwallu anghenion sy'n newid yn barhaus.

Cyflwynodd HG y Cynllun Gweithredol (y Cynllun), gan nodi'r strwythur arfaethedig i'w drafod, gan ganolbwyntio'n bennaf ar:

- Ymateb er mwyn diogelu iechyd
- Iechyd y boblogaeth
- Ailddechrau ein gwasanaethau a'n swyddogaethau iechyd cyhoeddus hanfodol.

Cyn troi at y tri maes penodol hyn, gofynnodd HG am unrhyw sylwadau neu gwestiynau cyffredinol.

Canmolodd MM y Cynllun fel dogfen hawdd ei darllen a oedd yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol. Gofynnodd i ba raddau roedd cyflawni yn erbyn agweddau ar y Cynllun yn dibynnu ar ganlyniad llwyddiannus yr achos busnes ar gyfer diogelu iechyd.

Canmolodd SG eglurder y Cynllun hefyd a phwysleisiodd bwysigrwydd canolbwyntio ar ganlyniadau yn ogystal â phrosesau. Cyfeiriodd hefyd at yr angen i olrhain effaith penderfyniadau polisi ar y cymunedau hynny yr effeithir arnynt fwyaf.

Cadarnhaodd JW gyda HG y byddai'r Bwrdd yn dychwelyd at y materion hyn ar ddiwedd y drafodaeth, os byddant yn parhau heb eu hateb.

Wedyn gofynnodd HG i bob Cyfarwyddwr Gweithredol grynhoi'r materion a nodir yn y tair adran uchod.

1. <u>Ymateb er mwyn Diogelu Iechyd</u>

Atgoffodd QS y Bwrdd o'r cyngor a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mai, i gefnogi datblygu'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu. Cyfeiriodd hefyd at oblygiadau sy'n deillio o'r Cynlluniau Ymateb Lleol i COVID-19 a Chynllun Gweithredu Coronafeirws Llywodraeth Cymru. Ers mis Mai, roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflenwi ystod o wasanaethau, cynnyrch a chyngor, fel y nodwyd yng Nghamau 1 a 2 Cynllun Gweithredu'r Cynllun Ymateb er mwyn Diogelu Iechyd y Cyhoedd. Roedd y gwersi a ddysgwyd hyd yma wedi llywio'r ymateb arfaethedig er mwyn diogelu iechyd ac yna aeth QS ati i grynhoi'r prif elfennau:

- Addasu ac ailffocysu'r gweithlu iechyd cyhoeddus generig i fod yn weithlu sy'n canolbwyntio ar ymateb i COVID-19. Roedd saith meddyg ymgynghorol wedi rhoi'r gorau i'w rolau arferol er mwyn bod yn arbenigwyr un-clefyd yn ymateb i COVID-19 er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, gan weithio ochr yn ochr â'r sefydliad staff arferol. Roedd Byrddau Iechyd wedi croesawu'r cam hwn;
- Ailstrwythuro patrymau gwaith y tîm ymateb er mwyn diogelu iechyd, i sicrhau ymateb mwy cadarn a chynaliadwy. Roedd hyn yn cynnwys addasiadau i fodel canolfan gyswllt genedlaethol;
- Newidiadau strwythurol arfaethedig i sefydlu celloedd swyddogaethol i reoli gofynion penodol a di-oed, er enghraifft, mewn ymateb i'r ffaith bod Cymru bellach yn dibynnu'n bennaf ar ei chanllawiau ei hun, yn hytrach na chanllawiau o Loegr.

Roedd dau gam i'r ymateb arfaethedig: ymgorffori'r newidiadau yn ystod y flwyddyn galendr bresennol, ac yna, yn amodol ar Lywodraeth Cymru'n cymeradwyo Achos Busnes, rhoi model newydd ar waith yn dechrau yn gynnar yn 2021.

Mewn ymateb i gwestiwn MM, cadarnhaodd QS argaeledd cyllid mewnol afreolaidd ar gyfer 2020. Roedd cynlluniau ar gyfer 2021 a thu hwnt yn dibynnu'n rhannol ar ganlyniad yr Achos Busnes.

Nododd SG fod yr Arsyllfa eisoes yn cynhyrchu adroddiadau ar statws iechyd y boblogaeth; ceisiodd sicrwydd o ran y model a oedd yn cipio canlyniadau yn ymwneud ag effaith COVID-19 ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Esboniodd JA y gwaith a oedd ar y gweill i nodi effaith COVID-19 ar y rhai ag anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes.

2. Iechyd y Boblogaeth

Wrth gyflwyno'r adran hon, croesawodd MB yr £1 filiwn a oedd ar gael o ganlyniad i ailffocysu penderfyniadau cyllidebol i gefnogi'r gwaith. Wedyn tywysodd y Bwrdd drwy'r prif bwyntiau:

- Defnyddio'r cyllid i ddatblygu model comisiynu a oedd yn cynnwys gweithgaredd mewnol ac allanol;
- Cynnwys y canlynol yn y rhaglen: dangosfwrdd ehangach; ystod o asesiadau effaith ar iechyd; prif ffocws ar effaith COVID-19 ar gyflogaeth, iechyd meddwl a llesiant a grwpiau sy'n agored i niwed;
- Gan nodi sylwadau cynharach SG, cadarnhaodd MB y ffocws ar ganlyniadau, gan geisio sicrhau'r budd mwyaf posibl a lleihau niwed. Roedd y meysydd blaenoriaeth ar hyn o bryd yn cynnwys: canlyniadau diweithdra ar iechyd; gwendidau yn y boblogaeth sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes a'r rhai a ddatgelwyd gan COVID-19; canlyniadau iechyd meddwl â ffocws cychwynnol penodol ar bobl iau. Roedd y gwaith hefyd yn bwydo i mewn i gelloedd cynghori technegol Llywodraeth Cymru i fod yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth a gwybodaeth ehangach.
- Y gwaith a oedd ar y gweill ar effaith materion allweddol arall, yn cynnwys Brexit; sut oedd hyn yn troshaenu â COVID-19 o ran ei effaith ar ardaloedd daearyddol a'u poblogaethau.

Gwnaeth MB rai sylwadau ehangach hefyd:

- Roedd rhannu gwybodaeth yn fater allweddol o ran cefnogi dealltwriaeth y cyhoedd o COVID-19 a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd mewn ymateb. Roedd rhaid i negeseuon fod yn weladwy ac yn hygyrch iawn;
- Roedd cynllun iechyd y boblogaeth yn ceisio cydbwyso'r rheidrwydd i ddiogelu'r cyhoedd yn ystod y pandemig yn erbyn cyfrifoldebau a chanlyniadau iechyd ehangach y cyfyngiadau a gyflwynwyd i reoli COVID-19.

Diolchodd DE i MB a'i dîm am eu gwaith ysbrydoledig; gan nad oedd effeithiau hirdymor COVID-19 yn hysbys, myfyriodd DE ar bwysigrwydd partneriaeth waith barhaus â Llywodraeth Cymru ac eraill.

Nododd SG ei bod hi'n gefnogol iawn o'r gwaith a wnaed hyd yma. Gofynnodd am sicrwydd mewn perthynas â'r asesiad o effaith y cyfnod atal byr, a rhannu casgliadau ar lefel y DU ac yn rhyngwladol. Cadarnhaodd MB fod cysylltiadau

ar waith â grwpiau cynghori technegol ledled Cymru i gipio a rhannu buddion a chanlyniadau'r cyfnod atal byr.

Roedd JA yn cytuno â DE ynghylch effeithiau tymor hwy COVID-19 a nododd y gallai'r rhain fod yn bellgyrhaeddol, er enghraifft ar raglenni rhoi'r gorau i smygu.

3. <u>Ailddechrau ein gwasanaethau a'n swyddogaethau iechyd cyhoeddus hanfodol a blaenoriaeth</u>

Wrth gyflwyno'r adran hon, nododd RB-W fod cyflawni rhai camau yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael, ac felly, ar gynyddu capasiti'r gweithlu. Roedd cymeradwyo'r Achos Busnes y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn berthnasol.

Wedyn nododd RB-W y materion allweddol:

- Y gwaith manwl a wnaed i nodi gwasanaethau hanfodol a blaenoriaeth a lefelau ailddechrau arfaethedig a bennwyd ar gyfer pob un o'r gwasanaethau a restrir yn y Cynllun, yn cynnwys y fethodoleg;
- Cyflymder a maint yr ailddechrau; byddai angen adolygu hyn yn gyson, gan ystyried yr effeithiau a'r risgiau, pe bai angen i wasanaethau/swyddogaethau led-weithredu neu gymryd saib.

Holodd JR ynglŷn â chysylltu â phartneriaid eraill i ymgymryd â gwaith nad oedd wedi'i gynnwys yn y cynlluniau ailddechrau presennol. Cytunodd RB-W i gynnwys yr ystyriaeth hon yn y gwaith parhaus.

Nododd MM fod gwasanaethau anstatudol wedi'u cynnwys yn y rhestr blaenoriaethau a gofynnodd a ddylid canolbwyntio, mewn gwirionedd, ar oblygiadau statudol yn unig. Nododd RB-W yr holl faterion y tynnwyd sylw atynt ar gyfer ystyriaeth barhaus.

Ychwanegodd TC fanylion am y gwasanaethau hynny nad oeddent yn gysylltiedig â COVID yr oedd rhaid iddynt barhau. Nododd DE yr heriau o ran capasiti a oedd yn wynebu ICC, yn debyg i bob sefydliad arall y GIG; holodd am effaith posibl ailddechrau ar system ehangach y GIG. Amlinellodd RB-W y trefniadau ar waith i ymgysylltu â phartneriaid.

Gofynnodd KE pa effaith y byddai ailddechrau gwasanaethau yn ei chael ar staff, o ystyried y gofynion presennol ar eu hamser. Cadarnhaodd RB-W mai dyma'r factor allweddol o ran ailddechrau, a byddai'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Cadarnhaodd JW y byddai'r grŵp cynghori pobl yn chwarae rôl oruchwylio yn hyn o beth.

Nododd JW fod y ddogfennaeth wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru yr wythnos flaenorol; roedd hi a TC wedi trafod yr angen i adolygu'r Cynllun â'r Gweinidog yn eu cyfarfod diweddar.

Diolchodd JW i gydweithwyr ar y Bwrdd am eu cyfraniadau ac aeth ati i grynhoi'r themâu allweddol o'r drafodaeth:

- Natur ddeinamig y Cynllun;
- Y cysylltiadau â gwaith arall sydd ar y gweill ar effaith a chanlyniadau;
- Yr angen i fonitro'r goblygiadau o ran adnoddau a chysylltu â Llywodraeth Cymru ar yr Achos Busnes; byddai'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i oruchwylio gwariant cysylltiedig â COVID-19 ar ran y Bwrdd;
- Yr angen i ddiweddaru'r trefniadau llywodraethu a goruchwylio;
- Blaenoriaeth yr ymateb er mwyn diogelu iechyd, heb golli golwg ar flaenoriaethau iechyd ehangach.

Nododd y Bwrdd hefyd y ffaith bod adrannau ar Alluogwyr a Dysgu Sefydliadol wedi'u cynnwys yn y Cynllun.

Daeth JW â'r eitem i ben drwy ddiolch i HG, QS, MB a RB-W am lywio'r trafodaethau ac i'r holl gydweithwyr am eu sylwadau cryf ac adeiladol. Diolchodd hefyd i NJ, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod; roedd ef a Sally Attwood yn gynllunwyr penigamp ac roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n elwa'n fawr o'u harbenigedd.

Penderfynodd y Bwrdd **gymeradwyo'r** Cynllun Gweithredol, gan nodi:

- y byddai mân newidiadau cyn cyhoeddi;
- natur ddeinamig y Cynllun, a'r bwriad i gynnwys y Bwrdd yn llawn mewn unrhyw newidiadau dilynol;
- y gwaith cyfochrog ar effaith a chanlyniadau fyddai'n bwydo i mewn i'r Cynllun;
- cyswllt parhaus â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru;
- gweithio â phartneriaid strategol fel y bo'n briodol a system y GIG yn ehangach;
- yr angen am ragor o waith ar drefniadau llywodraethu a goruchwylio.

**Camau Gweithredu: HG**

**Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd**

Daeth JW â'r cyfarfod i ben, gan ategu ei diolch i bawb a fu'n gysylltiedig â chreu'r Cynllun ac am bob cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm, gyda'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 26 Tachwedd 2020.